

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 25/2021
Dyddiad Cyhoeddi: 23/03/2021

Arolwg effaith Covid-19 ar ddysgwyr (2020) - Crynodeb o'r canlyniadau

Arolwg effaith Covid-19 ar ddysgwyr (2020)
Crynodeb o'r canlyniadau

Awduron: Semele Mylona, Heledd Jenkins

Adroddiad ymchwil llawn - dyfyniad: Mylona, Semele; Jenkins, Heledd. 2020. *Arolwg effaith Covid-19 ar ddysgwyr (2020) - Crynodeb o'r canlyniadau* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 25/2021.
Ar gael yn: <https://llyw.cymru/effaith-covid-19-ar-ddysgwyr-arolwg-cynodeb-or-canlyniadau>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Dr Semele Mylona

Addysg a Sgiliau| Ymchwil

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

Tabl cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Nodweddion ymatebwyr yr arolwg.....	5
3. Dysgu ac asesu cyn-Covid-19 a chyfredol.....	6
Math o ddysgu	6
Cymwysterau a newidiadau i ddysgu:.....	8
Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau	10
4. Profiadau dysgu a dysgu ar-lein	11
Profiadau o ddysgu ar-lein	12
Profiadau o ddysgu gartref.....	14
Profiadau o ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddysgu	16
5. Dysgu gartref yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf (Mawrth 2020 ymlaen)	17
Lles a diogelwch	17
Dysgu o fis Medi 2020	19
Lles meddwl	21
Atodiad 1 - Methodoleg ar gyfer sgorio Graddfa Lles Meddwl Warwick-Caeredin Fer	24

1. Cyflwyniad

Nod yr arolwg oedd darparu llinell sylfaen a gwella dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o'r effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar ddysgwyr yng Nghymru. Fe'i hanelwyd at ddysgwyr cyfredol 16 oed neu'n hŷn, mewn chweched dosbarth ysgol, addysg bellach neu ddysgu yn y gwaith neu ddysgu oedolion yn y coleg neu yn y gymuned.

Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein, gan ddefnyddio platfform Smart Survey. Fe agorodd ar gyfer ymatebion ar 16 Tachwedd a daeth i ben ar 20 Rhagfyr, gan dderbyn 6,088 o ymatebion. Mae'r holiadur ar gael ar gais; e-bostiwrch Ymchwil Cyflogadwyedd a Sgiliau cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru.

Mae'r adroddiad cryno hwn yn rhoi trosolwg o ganlyniadau'r arolwg. Bydd dadansoddiad manylach yn cael ei gynnal a'i gyflwyno mewn adroddiad dilynol.

Defnyddiwyd samplu cyfleus; nid yw hyn yn caniatáu cyffredinol ond gellir ei ddefnyddio i roi syniad o sut ymatebodd y sampl benodol i'r cwestiynau yn yr arolwg bryd hynny.

Roedd y rhan fwyaf o gwestiynau'n gofyn am farn ymatebwyr ar ddatganiadau ynghylch sut mae cyfnod clo Mawrth 2020 a'r cyfyngiadau dilynol wedi effeithio ar eu dysgu, a sut roedd eu dysgu'n mynd ar adeg cwblhau'r arolwg. Darparwyd lle ar gyfer sylwadau ar y diwedd a gwahoddwyd ymatebwyr i roi eu barn ar yr arolwg a/neu ehangu ar unrhyw un o'r pynciau yn yr arolwg.

Roedd tri phrif faes ffocws i'r arolwg: (1) dysgu a dewisiadau dysgu cyfredol a chyn-Covid-19, (2) profiad dysgu a dysgu ar-lein a (3) llesiant a diogelwch. Roedd modiwl byr hefyd ar brofiad ymatebwyr o ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac adran ddemograffeg fer ar ddiwedd yr arolwg.

Gofynnwyd dau gwestiwn penagored yn yr arolwg¹. Derbyniwyd cyfanswm o fil o ymatebion, ac ar ôl glanhau ar gyfer dyblygu, cofnodion coll neu anghyflawn, cafwyd 630 o ymatebion y gellir eu dadansoddi ar gyfer cwestiwn 21, a 330 o ymatebion y gellir eu dadansoddi ar gyfer cwestiwn 30. Cynhaliwyd dadansoddiad thematig ar yr holl ymatebion y gellir eu dadansoddi a nodwyd nifer o themâu allweddol. - fe'u cyflwynir yn nhrefn amllder yn nhabl 1 isod). Cyflwynir y themâu hyn trwy gydol yr adroddiad hwn ynghyd â dyfyniadau eglurhaol.

¹ C21. A oes unrhyw beth nad ydym wedi gofyn i chi hyd yn hyn yn yr arolwg hwn yr hoffech roi sylwadau arno? Defnyddiwch y blwch testun rhydd isod. C30. Diolch i chi am gymryd yr amser i gwblhau'r arolwg. Os oes unrhyw beth am yr arolwg hwn yr hoffech roi sylwadau arno, neu os hoffech egluro unrhyw un o'ch atebion, defnyddiwch y blwch testun rhydd isod.

Tabl 1: Themâu allweddol sy'n deillio o ddadansoddiad thematig o gwestiynau agored yr arolwg wedi'u cyflwyno yn nhrefn amlder

Cwestiwn 21	Cwestiwn 30
Thema 1: Heriau ac effeithiau lechyd Meddwl ar ddysgwyr a achosir gan yr aflonyddwch y maent wedi'i wynebu o ganlyniad i Covid-19. (Yn seiliedig ar 160 ymateb)	Thema 1: Awgrymiadau arolwg (Yn seiliedig ar 160 ymateb)
Thema 2: Diffyg gwybodaeth am arholiadau a dyfarnu graddau, gwahaniaeth rhwng tegwch arholiadau / graddau yn erbyn dilyniant addysg yn y dyfodol. (Yn seiliedig ar 135 ymateb)	Thema 2: lechyd meddwl (Yn seiliedig ar 38 ymateb)
Thema 3: Heriau gyda gweithio ar-lein gartref. (Yn seiliedig ar 122 ymateb)	Thema 3: Dysgu o bell (Yn seiliedig ar 122 ymateb)
Thema 4: Cydymffurfio â rheoliadau dysgu ar safle. (Yn seiliedig ar 80 ymateb)	Thema 4: Arholiadau a chanlyniad dysgu. (Yn seiliedig ar 80 ymateb)
Thema 5: Pryderon ynghylch cwblhau'r gwaith. (Yn seiliedig ar 75 ymateb)	Thema 5: Polisi'r llywodraeth (Yn seiliedig ar 11 ymateb)
Thema 6: Dymuno newid i'r amgylchedd dysgu. (Yn seiliedig ar 63 ymateb)	Thema 6: Pryderon ynghylch bod yn y coleg. (Yn seiliedig ar 11 ymateb)
Thema 7: Nodwyd bod cefnogaeth gan ffynonellau addysgu / darparwyr hyfforddiant / cyflogwyr wedi'i darparu ac yn ddefnyddiol. (Yn seiliedig ar 48 ymateb)	
Thema 8: Heriau gyda mynediad at TG ac offer arall sy'n angenrheidiol i weithio gartref. Hefyd diffyg sgiliau gyda defnyddio offer gartref a chysylltiadau rhyngrwyd gwael. (Yn seiliedig ar 28 ymateb)	
Thema 9: Mwy o hyder a chynhyrchiant wrth weithio gartref. (Yn seiliedig ar 19 ymateb)	
Thema 10: Effaith Covid-19 ar y rhai sy'n anabl. (Yn seiliedig ar 11 ymateb)	
Thema 11: Pryderon am faterion ariannol wrth gwblhau dysgu. (Yn seiliedig ar 9 ymateb)	
Thema 12: Ychydig / dim cefnogaeth gan gyflogwyr. (Yn seiliedig ar 7 ymateb)	

2. Nodweddion ymatebwyr yr arolwg

Roedd adran olaf yr arolwg yn gofyn sawl cwestiwn demograffeg, gan ddarparu cipolwg ar nodweddion ymatebwyr yr arolwg. Ni all y cwestiynau ddarparu darlun demograffig cynrychioliadol o gynulleidfa darged yr arolwg oherwydd y fethodoleg samplu, ond maent yn ein galluogi i gael golwg bellach ar ymatebion yn ôl demograffig.

Roedd mwyafrif ymatebwyr yr arolwg rhwng 16-19 (71%), ac yna 20-24 (8%), 25-34 (8%), 45-64 (6%), 35-44 (5%) a 65+ (2%). Dewisodd chwe deg dau y cant o'r ymatebwyr nodi eu bod yn fenywod, dewisodd 32% nodi eu bod yn ddynion a dewisodd 2% roi eu hunain yn y categorïau eraill a ddarparwyd. Dywedodd chwech y cant o'r ymatebwyr eu bod yn ystyried eu hunain yn dod o grŵp Du, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig.² Dywedodd pedwar ar ddeg y cant eu bod yn ystyried eu hunain yn anabl neu i fod ag anhawster dysgu a dewisodd 5% yr opsiwn 'mae'n well gennyf beidio â dweud'.³

Dywedodd un ar bymtheg y cant o'r ymatebwyr eu bod yn 'gofalu am, neu'n rhoi unrhyw help neu gefnogaeth i rywun oherwydd bod ganddynt gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor, neu afiechydon, neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint'. Gofynnwyd hefyd i'r un ar bymtheg y cant hynny a oeddent wedi'u cofrestru â'u hawdurdod lleol fel gofalwr; dywedodd 68% nad oedden nhw a dywedodd 14% eu bod nhw.

Dywedodd deuddeg y cant o'r ymatebwyr fod ganddynt gyfrifoldebau gofal plant fel rhoddwr gofal sylfaenol (e.e. rhiant/gwarcheidwad) a dywedodd 88% nad oedd ganddynt gyfrifoldebau o'r fath.


² I roi cyd-destun, ym mis Tachwedd 2020 roedd tua 20,000 allan o 22,500 o fyfyrwyr a a oedd wedi cofrestru mewn chweched dosbarth ysgol yn wyn a 93,000 allan o 106,000 mewn AB. Mae'r ffigurau'n seiliedig ar gasglu data presenoldeb Ysgol a chofnodion LLWR yn y drefn honno.

³ Mae ffigurau Tachwedd 2020 yn awgrymu bod oddeutu 70,000 o fenywod, 58,000 o ddynion a 700 o fyfyrwyr nad ydynt yn benodol i ryw wedi ymrestru yn chweched dosbarth ysgolion ac AB. Mae'r ffigurau'n seiliedig ar ffigurau cyfun o gasglu data presenoldeb Ysgol a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR).

3. Dysgu ac asesu cyn-Covid-19 a chyfredol


Roedd adran gyntaf yr arolwg yn gofyn am ddewisiadau dysgu blaenorol a chyfredol ymatebwyr, a yw eu dewisiadau dysgu wedi newid oherwydd Covid-19, ac os felly sut.

Math o ddysgu



Ffigur 1. Mathau o ddysgu ar ddechrau'r achos Covid-19 ym mis Mawrth 2020 (sylfaen: 6062)

Ar ddechrau'r achos Covid-19 (Mawrth 2020), dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr eu bod yn astudio naill ai mewn ysgol (hyd at a chan gynnwys Blwyddyn 11; 29%) neu mewn coleg addysg bellach (21%). Roedd 13% yn astudio yn chweched dosbarth ysgolion, 7% yn ymgymryd â phrentisiaeth (gyda Choleg Addysg Bellach neu ddarparwr dysgu yn y gwaith), roedd 7% yn ymgymryd â dysgu cymunedol i oedolion a 3% ar raglen hyfforddeiaeth (gweler ffigur 1).




Ffigur 2. Y mathau o ddysgu a oedd yn digwydd ar adeg cwblhau'r arolwg (sylfaen: 6053)

Ar adeg cwblhau'r arolwg, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn astudio mewn coleg addysg bellach (43%), ac yna myfyrwyr chweched dosbarth ysgol (22%). Roedd tua 9% yn gwneud cwrs dysgu i oedolion mewn canolfan ddysgu gymunedol neu goleg ac roedd ychydig dros 9% ar brentisiaeth gyda darparwr dysgu yn y gwaith a 2% gyda Choleg Addysg Bellach (FEC). Roedd ychydig dros 4% ar raglen hyfforddeiaeth.

O'r rhai a nododd natur eu cwrs, dywedodd 38% UG (Uwch Gyfrannol) a/neu Safon Uwch a dywedodd 27% gwrs galwedigaethol, fel BTEC neu City and Guilds. Dywedodd naw y cant eu bod ar ryw gwrs dysgu i oedolion arall (sylfaen: 4740).


Cymwysterau a newidiadau i ddysgu:



Ffigur 3. Cymwysterau a newidiadau i ddysgu - canlyniadau graddau asesu canolfannau (sylfaen: 3158)

Dywedodd bron i hanner yr ymatebwyr a oedd yn ymgymryd â dysgu cyn dechrau Covid-19 eu bod wedi cyflawni eu cymhwyster disgwyliedig (48%), dywedodd 12% eu bod wedi cyflawni eu cymhwyster disgwyliedig ond nid gyda'r graddau yr oeddent yn eu disgwyl a dywedodd 9% nad oeddent wedi cyflawni eu gradd ddisgwyliedig. Dywedodd mwy na hanner yr ymatebwyr eu bod wedi cael gradd asesu canolfan⁴ ar gyfer eu cwrs (53%; sylfaen: 5944) a dywedodd 62% o'r rheini fod y radd tua'r un faint â'r disgwyl, nododd 21% fod eu gradd yn is na'r disgwyl a 13% bod eu gradd yn uwch na'r disgwyl.

⁴ Cyfeirir ato ar hyn o bryd fel model Pennu Graddau gan Ganolfannau, gweler [Datganiad Ysgrifenedig: Y wybodaeth ddiweddaraf am Gymwysterau Cyffredinol yn 2021](#) am fwy o wybodaeth.



Ffigur 4. Newidiadau yn y dewis dysgu oherwydd Covid-19 (sylfaen: 5997)

Dyweddodd mwyafrif yr ymatebwyr yn y sampl nad oedd eu dewis dysgu wedi newid oherwydd Covid-19 (73%). Dywedodd tua 5% ei fod wedi newid oherwydd bod eu graddau'n waeth na'r disgwyl a 4% oherwydd na allent fynd ar y cwrs yr oeddent ei eisiau yn wreiddiol, roedd 10% yn ansicr. Rhoddodd tua 250 o ymatebwyr eu rhesymau eu hunain dros newid eu dewis dysgu gan adlewyrchu ar newidiadau mewn dewisiadau personol, amgylchiadau unigol a chyfyngiadau corfforol.

Roedd yr arolwg yn agored ar gyfer ymatebion pan nododd y Gweinidog Addysg yng Nghymru y bwriad y byddai arholiadau'n cael eu canslo oherwydd yr aflonyddwch sylweddol a brofwyd gan ddysgwyr yn barod. Gwnaed datganiad ysgrifenedig yn Ionawr 2020 yn cadarnhau'r symud i fodel pennu graddau gan ganolfannau ar gyfer blwyddyn arholiadau 2021/22 yng Nghymru. O ganlyniad, er nad oedd yr arolwg yn gofyn yn benodol am arholiadau 2021/22, datgelodd y dadansoddiad o sylwadau agored ddrwsch a phryder ynghylch canslo arholiadau a'r awydd am ragor o wybodaeth am sut y byddai'r system yn gweithio. Holodd rhai ymatebwyr ynghylch tegwch y system (cael y graddau 'cywir'), a gwahaniaeth canfyddedig rhwng cyrsiau Safon Uwch a chyrtsiau BTEC o ran

llwythi gwaith a sut mae graddau'n cael eu hasesu. Nododd ymatebwyr hefyd eu bod yn ei chael hi'n anodd gallu gwneud penderfyniadau am ddilyniant gyrfa / addysg yn y dyfodol oherwydd nad oeddent yn gwybod sut y byddai'r arholiadau'n gweithio a heb allu ymweld â phrifysgolion.

“Dryswch ynghylch canslo arholiadau eto. Rydyn ni yn y tywyllwch ynglŷn â beth sy'n ddisgwyliedig gennym ni a phryd.”


“Rwy'n teimlo nad oes gan fyfyrwyr fel fi unrhyw syniad beth sy'n digwydd gyda'n graddau terfynol ers i arholiadau gael eu canslo eleni. Dyma fy mlwyddyn gyntaf yn y coleg, mae'n ddigon o straen yn barod. Yn bersonol, rydw i'n cael trafferth gyda'r llwyth gwaith rydyn ni'n ei wynebu nawr i wneud iawn am ein harholiadau. Dydyn ni ddim yn gwybod ychwaith beth fydd yn digwydd yn ein hail flwyddyn, p'un a fydd yn aros yr un peth ai peidio, rwy'n credu mai'r hyn sy'n fy mhoeni fwyaf yw peidio â gwybod unrhyw beth am fy nyfodol agos”.

Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau

Dywedodd naw deg y cant o'r rhai yr oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt (h.y. yn ymgymryd â phrentisiaethau) nad oeddent ar ffyrlo ar adeg cwblhau'r arolwg. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn gallu mynychu eu lleoliad gwaith dan hyfforddiant, dywedodd 40% eu bod yn gallu gwneud hynny trwy'r amser, 18% rhywfaint o'r amser ac 11% ddim o gwbl. Nododd oddeutu 27% nad oeddent wedi cael eu neilltuo i lleoliad gwaith fel rhan o'u hyfforddeiaeth.

4. Profiadau dysgu a dysgu ar-lein

Roedd yr adran hon y gofyn am brofiad dysgu ymatebwyr ers dechrau Covid-19, gan gynnwys eu profiadau o ddysgu ar-lein, defnyddio'r Gymraeg a dysgu gartref.⁵




Ffigur 5. Man dysgu ar adeg llenwi'r arolwg (sylfaen: 5667)

Ar adeg cwblhau'r arolwg, dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr fod eu dysgu ar-lein (43%), yn y coleg (43%), yn yr ysgol (17%) neu'n gyfuniad o'r opsiynau a ddarparwyd ⁶ (5%).

⁵ Yn y cyd-destun hwn, gwnaethom ddefnyddio'r term 'darparwr dysgu' i gyfeirio at chweched dosbarth ysgol, coleg, darparwr hyfforddiant neu leoliad cymunedol lle'r oedd ymatebwyr yn astudio. Roedd y term 'cwrs dysgu' yn golygu cwrs neu gymhwyster y gallent fod yn ei wneud fel rhan o'r dysgu y maent yn ei wneud yn yr ysgol, coleg, gyda darparwr hyfforddiant neu yn y gymuned.

⁶ Roedd y cwestiwn yn caniatáu mwy nag un ymateb.

Profiadau o ddysgu ar-lein



Ffigur 6. Profiadau dysgu ar-lein ar adeg cwblhau'r arolwg (sylfaen o'r brig i'r gwaelod: 5348, 5254, 5323, 5479, 5524, 5333, 5355, 5534, 5543, 5212, 5461, 5504, 5578)

Rhoddwyd nifer o ddatganiadau i ymatebwyr am eu profiad o ddysgu ar-lein ar adeg cwblhau'r arolwg. Mae Ffigur 6 uchod yn dangos i ba raddau yr oedd ymatebwyr yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau hynny (cyfunwyd cytuno ac yn tueddu i gytuno wrth adrodd ar yr ymatebion trwy weddill yr adroddiad). Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ymatebion cadarnhaol i'r holl ddatganiadau oedd wedi'u geirio'n gadarnhaol. Y 3 ymateb cadarnhaol uchaf oedd - Rwyf wedi gallu cysylltu â staff fy narparwr dysgu pan oedd angen i mi wneud hynny (86%), Rwy'n gwybod ble i ofyn am help gyda defnyddio technoleg os bydd angen i mi (80%) a Cefais fy hysbysu am newidiadau i'm cwrs neu i'r addysgu/hyfforddi (80%). Roedd yr ymateb cadarnhaol isaf ar gyfer Rydw i'n teimlo'n gadarnhaol am ddysgu/hyfforddi ar-lein yn gyffredinol (54%).

Roedd dros 50% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r ddau ddatganiad a oedd wedi'u geirio'n negyddol - Mae gen i bryderon am ddyfodol fy opsiynau cyflogaeth o ganlyniad i Covid-19 (57%) ac Mae gen i bryderon am ddyfodol fy opsiynau addysg neu hyfforddiant o ganlyniad o Covid-19 (61%).


Datgelodd dadansoddiad thematig o sylwadau agored nifer o heriau i weithio ar-lein/gweithio o bell, teimlad cyffredinol o atgasedd tuag at weithio ar-lein a'r farn ei fod yn cael effaith niweidiol ar iechyd meddwl unigolion. Mae'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg yn cynnwys:

- Mae'n anodd canolbwyntio yn aml wrth ddysgu gartref oherwydd bod pethau'n tynnu sylw. Mae dysgwyr yn nodi eu bod yn teimlo diffyg cymhelliant i weithio gartref.
- Mae gwahaniaethau mewn arddulliau addysgu i ddysgwyr yn anodd. Mynegodd dysgwyr o bell fod yn well ganddynt 'wersi 'byw' er bod hyn yn golygu bod gofyn cwestiynau neu ofyn am adborth yn heriol.
- Nodwyd anawsterau gydag arddulliau dysgu rhai tiwtoriaid lle darparwyd cyflwyniadau yn unig a dim gwersi byw. Mae dysgwyr yn teimlo eu bod yn addysgu eu hunain heb fawr o gefnogaeth.
- Ar gyfer dysgwyr sy'n astudio cyrsiau lle mae angen elfennau ymarferol, maent yn teimlo nad ydynt yn cael y cwrs y gwnaethant gofrestru ar ei gyfer, nac yn dysgu'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt i gwblhau'r cwrs wrth weithio gartref.
- Anallu i astudio rhai pynciau gartref oherwydd diffyg offer.
- Her cyfnodau hunan-ynysu (dysgu mewn-allan-mewn).

"Mae'n well gen i weithio yn y dosbarth oherwydd nid yn unig bod gennyf chi gymorth uniongyrchol eich darparwr dysgu ond mae llai o bethau'n tynnu sylw na gartref".

"Rwy'n teimlo llai o gymhelliant gartref oherwydd mae yna bethau eraill y gallwn i fod yn eu gwneud, ond mae bod mewn amgylchedd proffesiynol yn fy ysgogi i wneud gwaith gan mai dyna'r unig beth y gallaf ei wneud. Nid yn unig hynny ond gallwch gasglu deunyddiau ac adnoddau yn gyflym tra yn y dosbarth ond efallai y byddwch yn gyfyngedig i'r hyn y gallwch ei wneud gartref oherwydd diffyg adnoddau".

Profiadau o ddysgu gartref



Ffigur 7: Profiadau o ddysgu gartref ar adeg cwblhau'r arolwg (sylfaen o'r brig i'r gwaelod: 5348, 5254, 5323, 5479, 5524, 5333, 5355, 5534, 5543, 5212, 5461, 5504, 5578)

Gofynnwyd i ymatebwyr hefyd am amgylchiadau'r unigolion o ran dysgu gartref ar adeg cwblhau'r arolwg. Roedd y darlun cyffredinol yn gadarnhaol gyda dros 75% yn cytuno ar bob datganiad ond un. Roedd naw deg chwech y cant o'r ymatebwyr yn teimlo'n ddiogel gartref ac roedd 91% yn teimlo'n ddiogel ar-lein. Dywedodd saith deg un y cant fod ganddyn nhw'r heddwoch a'r tawelwch yr oedd ei angen arnyn nhw i ddysgu gartref.

Yr eithriad oedd ar gyfer y datganiad 'Rwyf wedi profi anawsterau personol wrth addasu i ddysgu unigol o bell' (mewn ffont coch isod), lle'r oedd yr ymatebion bron yn gyfrannol ar hyd y raddfa a ddarparwyd.

Datgelodd dadansoddiad thematig o sylwadau agored farn gymysg ynghylch hoffter at ddysgu o bell yn hytrach nag ar y safle. Roedd rhai yn arsylwi canlyniadau cadarnhaol a mwy o gynhyrchiant tra bod eraill yn teimlo bod mwy o heriau (fel yr amlinellwyd uchod):

- Mae rhai dysgwyr o bell yn gwerthfawrogi hyblygrwydd gweithio gartref, yn teimlo'n fwy cyfforddus ac yn fwy diogel, ac yn gallu gweithio pan fyddant yn teimlo'n barod i wneud hynny.
- Nododd rhai dysgwyr sy'n oedolion eu bod wedi gwella eu sgiliau TG trwy weithio gartref sy'n helpu gydag agweddau eraill ar fywyd.

“Yn gyffredinol, mae'n well gen i addysg ar-lein gan fy mod yn teimlo y gallaf ganolbwyntio mwy ac rwyf ar fy mwyaf cyfforddus. Rwyf hefyd yn cael anhawster gyda llawer o broblemau iechyd meddwl sy'n ei gwneud hi'n anodd iawn i mi siarad â phobl a gadael fy nhŷ. Fodd bynnag, mae dosbarthiadau ar-lein yn fy helpu i weithio trwy'r materion hynny wrth i mi fagu hyder a dewrder.”

Roedd canmoliaeth hefyd am y gefnogaeth gan staff addysgu, darparwyr dysgu a chyflogwyr, gyda thiwtoriaid wedi teithio'r ail filltir wrth ddarparu adnoddau a chefnogaeth dysgu o bell.

“Teithiodd y tiwtor ‘yr ail filltir’ i sicrhau bod gennym ni ddigon o weithgareddau defnyddiol a diddorol ychwanegol, ei fod bob amser ar gael i ni gysylltu ag ef, ac roedd yn rhoi hwb i'n hyder gyda sylwadau cadarnhaol iawn ar ein gwaith”.


Nododd ymatebwyr hefyd rai heriau TG penodol wrth weithio o bell:

- Nid oes gan rai dysgwyr yr offer TGCh i allu dysgu'n effeithiol.
- Mae cysylltiadau rhyngrwyd gwael / araf yn effeithio ar y gallu i ddysgu o bell.
- Nid yw rhai platfformau a ddefnyddir gan ddarparwyr dysgu wedi gweithio'n dda.
- Mae lefel sgiliau gwael i ddefnyddio offer TGCh yn golygu bod rhai dysgwyr wedi dweud eu bod wedi cael trafferth cymryd rhan yn y dysgu o bell.

Roedd hunan-ynysu hefyd yn thema allweddol y cyfeiriwyd ati mewn ymatebion agored. Roedd rhai dysgwyr yn teimlo bod yr angen iddynt hunan-ynysu / cael neu wedi cael Covid-19 / gweithio gartref wedi cael effaith ar allu a chymhelliant dysgwyr i gwblhau gwaith. Teimlai rhai dysgwyr hefyd nad yw'r darparwyr dysgu yn ystyried effaith cyfnodau ynysu ac mae dysgwyr yn poeni am eu gallu i gyflawni'r gwaith gosod.

Profiadau o ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddysgu

Dywedodd chwe deg dau y cant o'r ymatebwyr nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg. Dywedodd dau ddeg tri y cant eu bod yn 'siaradwr Cymraeg ond ddim yn rhugl' a 15% eu bod yn 'siaradwr Cymraeg rhugl'. Nododd ugain y cant o'r rhai oedd â rhywfaint o allu i siarad Cymraeg eu bod yn dilyn eu cwrs (neu ran ohono) trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.



Ffigur 8. Profiadau o ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddysgu (sylfaen o'r brig i'r gwaelod: 522, 549, 550, 473, 539, 550, 558, 555, 557)

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yr arolwg yn gadarnhaol am eu profiadau o ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y pandemig. Roedd y mwyafrif (79%) wedi parhau i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog fel arfer ac roeddent yn fodlon ag argaeledd adnoddau cyfrwng Cymraeg (77%). Roedd ymatebwyr ychydig yn fwy negyddol ynghylch cyfleoedd i fynychu gweithgareddau


cymdeithasol (gan gynnwys ar-lein) i siarad Cymraeg â dysgwyr eraill y tu allan i'w cwrs (roedd 31% yn anghytuno eu bod wedi cael cyfleoedd o'r fath).

5. Dysgu gartref yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf (Mawrth 2020 ymlaen)

[Lles a diogelwch](#)

Canolbwyntiodd y rhan hon o'r arolwg ar les, teimladau a meddyliau ymatebwyr mewn perthynas â'u profiad dysgu ers dechrau Covid-19.

Gan feddwl am y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf a ddechreuodd ym mis Mawrth 2020*:



Ffigur 9. Profiadau o ddysgu yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf ym mis Mawrth 2020 (sylfaen o'r brig i'r gwaelod: 4683, 4863, 4753, 4819, 4920, 4704, 4807, 4731, 4748, 4787, 4602, 2691, 4894)

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn yn benodol am y cyfnod 'yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf a ddechreuodd ym mis Mawrth 2020', sy'n golygu ei fod yn gofyn am atgof ymatebwyr o ddigwyddiadau. Dylid ystyried hyn wrth adolygu'r ffigurau. Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ymatebion cadarnhaol i'r holl ddatganiadau oedd wedi'u geirio'n gadarnhaol. Y 3 ymateb cadarnhaol gorau oedd - Roeddwn i'n gallu cysylltu â staff fy narparwr dysgu/hyfforddi pan oedd angen i mi wneud hynny (78%), Roeddwn i'n gwybod ble i ofyn am help gyda defnyddio technoleg pe bai angen (72%) a Gallwn gael cefnogaeth dysgu/hyfforddi ychwanegol gan fy narparwr dysgu/hyfforddi pe bai ei angen arnaf (68%). Fodd bynnag, roedd cytundeb yn tueddu i ychydig yn fwy petrus o'i gymharu â'r ymateb i gwestiynau a ofynnwyd am ddysgu ar adeg cwblhau'r arolwg.


Dywedodd pum deg wyth y cant o'r ymatebwyr eu bod yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio ar eu gwaith wrth astudio gartref. Roedd pedwar deg naw y cant o'r ymatebwyr yn cytuno eu bod yn derbyn cefnogaeth gan eu darparwr dysgu/hyfforddi ar gyfer eu hiechyd meddwl a'u lles emosiynol, gyda 51% yn cytuno eu bod yn fodlon â'r gefnogaeth a gafwyd.

Roedd nifer yr ymatebion nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno yn sylweddol fwy i'r holl gwestiynau yn yr adran hon o'i gymharu â chwestiynau eraill yn yr arolwg. Er nad yw'n bosibl darganfod y rheswm am hyn, gall ymateb 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' nodi na themlir ei fod yn berthnasol, nid yw'r cwestiwn wedi'i ddeall, neu mae diffyg penderfyniad go iawn.

Dysgu o fis Medi 2020

Roedd llinell amser y cwestiynau hyn yn gofyn i ymatebwyr fyfyrion ar eu profiadau dysgu ers dechrau'r flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi 2020.

Ers dechrau'r flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi 2020:



Ffigur 10. Dysgu ers dechrau'r flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi 2020 (sylfaen o'r brig i'r: 5319, 4996, 5427, 5263, 5301)

Nododd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod yn hapus i ddychwelyd at eu darparwr dysgu/hyfforddi (79%) er bod dros hanner yn cytuno eu bod yn poeni am ddychwelyd i'r ganolfan ddysgu cyn mis Medi (58%). Roedd wyth deg dau y cant o'r ymatebwyr yn teimlo'n hyderus am yr hyn yr oedd eu darparwr yn ei wneud i'w cadw'n ddiogel.

Datgelodd dadansoddiad thematig o sylwadau agored sawl maes pryder arall yn ymwneud ag anabledd:

- Mae rheoliadau ar gyfer dysgwyr anabl ar y safle yn heriol - mae agoriadau lifft yn mynd yn groes i reolau system un ffordd.
- Mae dysgwyr ag anawsterau dysgu yn wynebu heriau ychwanegol wrth weithio gartref.

“Mae systemau un ffordd yn y coleg yn ei gwneud hi'n anodd i bobl anabl ddefnyddio cyfleusterau gan fod y rhain yn gofyn am fynd i fyny ac i lawr llawer o risiau. Mae ein lifft yn agor i mewn i 'dir neb' lle, pa bynnag ffordd rydych chi'n mynd, rydych chi'n mynd yn groes i'r system un ffordd am gyfnod byr”.

Mae'n anodd cael help gydag anghenion ychwanegol a chredaf y dylid rhoi mwy o amser ac ymdrech (gyda gweithio o bell).”

Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ariannol hefyd fel:

- Mae oedi wrth dderbyn cymwysterau ar y cwrs wedi effeithio ar allu dysgwyr i ennill arian.
- Mae cost prynu offer sydd ei angen i weithio o bell ar ben biliau yn anodd i ddysgwyr, mae rhai wedi nodi eu bod wedi trefnu cyllid i brynu offer TG sy'n ofynnol.
- Mae dysgwyr yn poeni am leoliadau gwaith / cyfleoedd gwaith yn y dyfodol.

Lles meddwl

Defnyddiodd yr arolwg raddfa wedi'i dilysu i gael cipolwg ar les meddyliol y sampl - fersiwn fer o [Raddfa Lles Meddwl Warwick-Caeredin \(Warwick-Edinburgh Mental Wellbeing Scale\)](#)⁷ (gweler Atodiad I am wybodaeth ar sut mae'r raddfa yn cael ei sgorio). Mae'r syniad o les yn weddol newydd, felly, mae'n anodd dehongli'n llawn beth mae'r sgorau yn ei olygu i bob unigolyn.

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg ddisgrifio eu profiadau dros y pythefnos diwethaf fel a ganlyn: ‘Dyma rai datganiadau am deimladau a meddyliau. Dewiswch yr ateb sy'n disgrifio orau eich profiad o bob un dros y pythefnos diwethaf.’

- “Rydw i wedi bod yn teimlo'n optimistaidd am y dyfodol.”
- “Rydw i wedi bod yn teimlo'n ddefnyddiol.”
- “Rydw i wedi bod yn teimlo'n ymlaciol.”
- “Rydw i wedi bod yn delio â phroblemau yn dda.”
- “Rydw i wedi bod yn meddwl yn glir.”
- “Rydw i wedi bod yn teimlo'n agos at bobl eraill.”
- “Rydw i wedi gallu gwneud fy meddwl fy hun am bethau.”

Wrth gael eu trosi gan ddefnyddio methodoleg sgorio Graddfa Lles Meddwl Warwick-Caeredin, roedd y sgoriau'n amrywio o isafswm sgôr o 7 (sgôr lles isaf) i sgôr uchaf o 35 (sgôr lles uchaf), felly mae sgorau uwch yn dynodi lles meddyliol cadarnhaol uwch.

Gwerth cymedrig y sgôr ar gyfer ymatebwyr yr arolwg oedd 20. Fel cyfeiriad, nododd Arolwg Iechyd Lloegr (2011)⁸ sgôr gymedrig ar gyfer yr un metrig o 24, felly

⁷ Datblygwyd WEMWBS i alluogi monitro lles meddyliol yn y boblogaeth yn gyffredinol a gwerthuso prosiectau, rhaglenni a pholisïau sy'n anelu at wella lles meddyliol. Er na ddyluniwyd y raddfa i fonitro lles meddyliol ar lefel unigol, mae ymchwil (mewn oedolion) yn awgrymu y gallai ganfod newid sy'n ystyrlon yn glinigol.

⁸ [WEMWBS Population Norms in Health Survey for England data 2011](#)

roedd ymatebwyr yr arolwg wedi sgorio'n is yn gyffredinol. (Yn anffodus, dyma'r sgôr gyhoeddedig wedi'i dilysu ddiweddaraf sydd ar gael o ddata ar lefel y DU ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.)

Ar adeg cwblhau'r arolwg, roedd sgoriau ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn gwneud prentisiaeth gyda Choleg Addysg Bellach, cwrs dysgu oedolion mewn canolfan ddysgu gymunedol neu goleg, neu brentisiaeth gyda darparwr dysgu/hyfforddi yn y gwaith, yn uwch ar gyfartaledd ar y raddfa lles. Roedd y rhai mewn chweched dosbarth ysgolion, Coleg Addysg Bellach a rhaglenni hyfforddeiaeth ar gyfartaledd ar ben isaf y raddfa lles.

Roedd sgoriau lles cymedrig yn uwch ar gyfer dynion na menywod (20.94 a 19.76 yn y drefn honno). Roedd rhywfaint o amrywiad o ran grwpiau oedran. Adroddodd y rhai 16-24 oed y sgoriau lles cymedrig isaf (19.5), ond adroddwyd y sgoriau lles cymedrig uchaf yn y grŵp oedran 65+ (24.5).

Roedd y sgôr lles cyfartalog ar gyfer y rhai a oedd yn ystyried eu hunain yn dod o grŵp Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn is (19.9) o gymharu â'r rhai nad oeddent (20.1). Yn yr un modd, nododd y rhai a oedd yn ystyried eu hunain ag anabledd neu anhawster dysgu sgoriau lles is ar gyfartaledd (19.1) o gymharu â'r rhai nad oeddent (20.4).

Roedd y sgôr lles cyfartalog ar gyfer y rhai â chyfrifoldebau gofalu yn is (19.7) o gymharu â'r rhai nad oeddent (20.2). Fodd bynnag, nododd y rhai â chyfrifoldebau gofal plant sgoriau lles uwch ar gyfartaledd (21) o gymharu â'r rhai na wnaethant (20).

Datgelodd y dadansoddiad thematig o sylwadau agored gryn bryder ynghylch iechyd meddwl a lles. Roedd hyn yn tueddu i ganolbwyntio ar yr effaith y mae dysgu o bell wedi'i chael ar iechyd meddwl unigolion, gan gyfrannu at straen a phryder, gyda diffyg cymhelliant i ddysgu hefyd yn dod i'r amlwg fel thema allweddol. Yn ogystal, mae'n bosibl fod gan y rhai sy'n dysgu gartref gyfrifoldebau eraill (gofalu, addysg gartref) sy'n cyfyngu ar eu hamser dysgu ac yn cyfrannu at straen a phryder.

Teimlai llawer o ddysgwyr ei bod yn ymddangos mai ychydig iawn o ystyriaeth a gafwyd o sut mae'r pandemig yn cael effaith negyddol ar iechyd meddwl dysgwyr. Yn yr un modd, roedd y dysgwyr yn teimlo bod diffyg cefnogaeth i'w helpu gyda hyn - ac y dylid darparu mwy o gefnogaeth i ddysgwyr i helpu gyda'r iechyd meddwl yn ystod yr amseroedd heriol hyn. Roedd ansicrwydd ynghylch arholiadau hefyd yn creu llawer o bryder i ddysgwyr.

Teimlai rhai dysgwyr fod yr amgylchedd addysg a'r rheoliadau a oedd ar waith oherwydd Covid-19 yn creu amgylchedd dysgu gelyniaethus a oedd yn creu straen i ddysgwyr. I'r dysgwyr hynny a oedd ar y safle ar adeg cwblhau'r arolwg, roedd pryderon ynghylch peidio â dilyn rheoliadau, y perygl o amlygiad i Covid-19 a dod ag ef adref i'r teulu. I'r rhai sy'n dysgu o bell roedd pryderon ynghylch cymhelliant i weithio, rheoli cydbwysedd gwaith a bywyd cartref ac ynysigrwydd cymdeithasol.

“Rwy’n teimlo fel pe bai materion iechyd meddwl wedi cael eu gwthio o’r neilltu i bawb ond yn enwedig dysgwyr. Dydy hi ddim wedi bod yn hawdd ac rwy’n teimlo bod pawb wedi anghofio amdanom”.

Mae rhai dysgwyr wedi profi canlyniadau cadarnhaol ar gyfer eu hiechyd meddwl, gan deimlo bod dosbarthiadau ar-lein wedi helpu gyda'u hiechyd meddwl ac yn teimlo'n fwy hyderus. Roedd tystiolaeth hefyd bod tiwtoriaid yn gefnogol iawn ac yn cysylltu'n aml gyda dysgwyr.

Mae'r adroddiad cryno hwn yn rhoi trosolwg o ganlyniadau'r arolwg. Fe fydd dadansoddiad manylach, gan gynnwys dadansoddi yn ôl mathau o ddysgwyr a nodweddion dysgwyr yn cael ei gynnal, a bydd yn defnyddio ffynonellau tystiolaeth eraill fel adroddiadau thematig diweddar Estyn ar iechyd meddwl a lles a dysgu cyfunol⁹.

⁹ [Cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr](#): Gwaith darparwyr addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned yn ystod y pandemig COVID-19 (Mawrth, 2021).

[Datblygiadau mewn arferion dysgu o bell a dysgu cyfunol](#): Gwaith darparwyr addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned yn ystod pandemig COVID-19 (Mawrth 2021).

Atodiad 1 - Methodoleg ar gyfer sgorio Graddfa Lles Meddwl Warwick-Caeredin Fer

Sgorir y SWEMWBS trwy adio'r sgoriau ar gyfer pob un o'r saith eitem yn gyntaf, sy'n cael eu sgorio o 1 i 5 fel a ganlyn:

- “Dim o gwbl” = 1 pwynt
- “Anaml iawn ” = 2 bwynt
- “Weithiau” = 3 pwynt
- “Yn aml” = 4 pwynt
- “Trwy'r amser” = 5 pwynt

Defnyddiwyd cod gyda phob un o'r opsiynau ymateb i adlewyrchu'r patrwm sgorio uchod. Sylwch fod y raddfa wedi'i sgorio'n gadarnhaol, sy'n golygu bod sgôr uwch yn awgrymu lles meddyliol cadarnhaol uwch. Cafodd y newidynnau eu labelu fel a ganlyn a chyflwynir yr ystadegau disgrifiadol ar gyfer pob un yn y tabl isod:

- “Rydw i wedi bod yn teimlo'n optimistaidd am y dyfodol.”
- “Rydw i wedi bod yn teimlo'n ddefnyddiol.”
- “Rydw i wedi bod yn teimlo'n ymlaciol.”
- “Rydw i wedi bod yn delio â phroblemau yn dda.”
- “Rydw i wedi bod yn meddwl yn glir.”
- “Rydw i wedi bod yn teimlo'n agos at bobl eraill.”
- “Rydw i wedi gallu gwneud fy meddwl fy hun am bethau.”

Sgorir y raddfa trwy adio'r ymatebion i bob eitem. Mae'r ymatebion, o 1 i 5, yn cael eu cyfanredu i ffurfio'r Mynegai, a all amrywio o 7 (y rhai sy'n ateb 'Dim o gwbl' ar bob datganiad) i 35 (y rhai sy'n ateb 'Trwy'r amser' i bob datganiad). Yn nodweddiadol, cyflwynir sgorau SWEMWBS fel modd, canolrifau ac fel y 10fed a'r 90ain ganradd. Nid ydynt yn cael eu dosbarthu ymhellach yn categorïau.